

## **YSGOL GYMRAEG GLANRAFON,**

### **YR WYDDGRUG.**

## **GWEITHDREFNAU CODI CŴYN.**

### **Cefndir.**

Mae Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002, a ddaeth i rym ar Fedi'r 1af. 2003, yn ei gwneud yn ofynnol i Gyrff Llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, i ddelio gyda chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau o staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned leol ac eraill. Mae hyn yn cynnwys cwynion am yr ysgol ac unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau cymunedol y mae'r ysgol yn eu darparu.

### **Pwrpas y Gweithdrefnau.**

Mae'r gweithdrefnau wedi'u cynllunio i sicrhau y gall unrhyw un sydd â diddordeb yn ein hysgol leisio pryder gyda'r hyder y bydd y sylwadau hynny yn cael dwys ystyriaeth, ac y gweithdrefnau unrhyw argymhellion a wneir, os y gwelir bod lle i hynny, o fewn amser priodol.

Cynhwysir braslun o weithdrefnau Codi Cŵyn yr ysgol yn y Llawlyfr a adolygir yn flynyddol.

### **Yr elfennau na chant eu cynnwys yn y gweithdrefnau hyn.**

- Gwrthod i ddisgybl gael ei dderbyn i'r ysgol.
- Gwahardd disgyblion o'r ysgol.
- Disgyblaeth staff.
- Amddiffyn Plant.
- Cwynion am y cwricwlwm.
- Cwynion am Addysg Grefyddol a chyd-addoli.
- Darpariaeth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### **Delio â chwynion – Gweithdrefn 3 cham.**

#### **Cam 1 – Y Cam Anffurfiol.**

- Os yw'r achwynwr yn cysylltu'n uniongyrchol â Llywodraethwr, gan gynnwys y cadeirydd, gyda chŵyn yn y cam hwn, bydd y Llywodraethwr yn cyfeirio'r mater i sylw'r pennaeth ar unwaith.
- Mae Ysgol Glanrafon yn teimlo y gellir datrys mwyafrif mawr y pryderon a chwynion yn anffurfiol a chyflym gan aelod o staff y mae'r rhiant yn cysylltu ag ef/hi yn y lle cyntaf.
- Ymhob sefyllfa, bydd yr aelod o staff sy'n delio â'r gŵyn yn cofnodi dyddiad a manylion y gŵyn a chanlyniadau'r cysylltiad ac yn rhoi gwybod i'r pennaeth.
- Bydd yr ysgol yn ymchwilio'n fanwl i'r gŵyn, ac os na chaiff y pryder neu gŵyn ei ddatrys yn syth, bydd yr aelod o staff sy'n delio â'r mater yn esbonio beth fydd yn digwydd nesaf.

- Os yw'n ymddangos nad yw'r trafodaethau yn mynd i ddatrys y broblem a/neu os yw'r achwynwr yn dangos eu bod yn anfodlon â'r ymateb, bydd yr aelod o staff yn rhoi gwybod i'r achwynwr beth yw cam nesaf y weithdrefn.

### **Cam 2 – Ymchwiliad y Pennaeth a'r Uwch-dîm Rheoli.**

- Dylai rhieni sy'n dymuno mynd â chwyn ymlaen i Gam 2 anfon y gwyn yn ysgrifenedig at yr ysgol. Cydnabyddir y gwyn yn ysgrifenedig o fewn 3 diwrnod ysgol i'w derbyn, gan roi esboniad byr o'r weithdrefn gwynion a dyddiad targed ar gyfer darparu ymateb. Os nad oes modd delio â'r mater o fewn 10 niwrnod ysgol, caiff yr achwynwr wybod yn ysgrifenedig pryd y mae'n debygol o gael ei gwblhau.
- Bydd y pennaeth a/neu'r uwch dîm rheoli yn rhoi cyfle i'r achwynwr ddod i'r ysgol i gynnal cyfarfod i drafod y gwyn ar ôl gwneud apwyntiad ymlaen llaw. Os yw'n dymuno, mae cyfle i'r achwynwr ddod â chyfaill neu berthynas gydag ef/hi i'r cyfarfod hwnnw.
- Os oes angen, bydd y pennaeth a/neu'r uwch dîm rheoli yn cyfweld unrhyw dystion a chymryd datganiadau gan y bobl berthnasol. Os yw'r gwyn yn ymwneud â disgybl, mae'n bosib y bydd y disgybl hefyd yn cael ei g/chyfweld gyda thystion yn bresennol.
- Bydd y pennaeth a/neu'r uwch-dîm rheoli yn gofalu y cedwir cofnodion ysgrifenedig o gyfarfodydd, sgysiau ffôn a dogfennau perthnasol eraill.
- Unwaith y mae'r holl ffeithiau perthnasol yn hysbys bydd y pennaeth a/neu'r uwch-dîm rheoli yn trefnu cyfarfod gyda'r achwynwr i drafod neu ddatrys y mater. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, anfonir llythyr yn esbonio canlyniad y cyfarfod. Nodir yn y llythyr hwnnw y dylai'r achwynwr roi gwybod i gadeirydd y Llywodraethwyr o fewn 15 niwrnod ysgol os ydyw ef/hi yn dymuno mynd â'r gwyn ymhellach.

### **Cam 3 – Adolygiad gan y Corff Llywodraethol.**

- Os y dymuna'r achwynwr fynd â'r gwyn ymlaen i'r cam olaf hwn, bydd rhaid iddo ef/hi ysgrifennu at Gadeirydd y Corff Llywodraethol gan roi manylion llawn am natur y gwyn.
- Bydd Cadeirydd y Llywodraethwyr yn sicrhau bod cyfarfod o is-bwyllgor dynodedig Codi Cwyn y Corff Llywodraethol yn cael ei drefnu o fewn 15 niwrnod ysgol i dderbyn y llythyr. Nid yw cwynion unigol yn cael eu trafod gan y Corff Llywodraethol llawn ac ni chaiff ei hadrodd i'r Corff llawn hyd nes y bydd wedi ei datrys, ac hyd yn oed wedyn, ddim yn fanwl.
- Bydd cadeirydd yr is-bwyllgor Codi Cwyn, (is-gadeirydd y Corff Llywodraethol llawn) yn gofalu bod y pennaeth, yr achwynwr ac unrhyw dystion yn derbyn gwybodaeth ysgrifenedig 5 niwrnod ysgol o flaen y cyfarfod i nodi amser a lleoliad y pwyllgor, sail y gwyn a chopiau o unrhyw ddogfennau perthnasol, hawl i'r naill a'r llall drefnu i un person o'u dewis ddod gyda nhw i'r cyfarfod, a dewis y pwyllgor i ystyried y mater yn absenoldeb yr achwynydd a'r pennaeth ai peidio.
- Rhaid sicrhau bod y cyfarfod yn cael ei gofnodi'n briodol. Bydd yr ysgol yn sicrhau fod copi o bob gohebiaeth a'r holl nodiadau yn cael eu cadw mewn ffeil yn yr ysgol, ar wahan i gofnodion personol unrhyw ddisgybl.

- Ar ddiwedd y cyfarfod, bydd cadeirydd y pwyllgor yn esbonio y bydd yr is-bwyllgor Codi Cŵyn yn ystyried ei benderfyniadau ac yn ysgrifennu at y naill barti a'r llall yn rhoi gwybod iddynt beth yw'r canlyniad o fewn 5 niwrnod ysgol.
- Gall y pwyllgor hwnnw wrthod y gŵyn yn rhannol neu'n gyfangwbl, gynnal y gŵyn yn rhannol neu'n gyfangwbl, benderfynu ar weithrediadau perthnasol i ddatrys y gŵyn neu argymhell newidiadau i systemau'r ysgol, ei pholisiau a'i gweithdrefnau i sicrhau na fydd problemau o natur tebyg yn digwydd eto.

### **Rôl yr A.A.Ll.**

- Os yw'r achwynwr yn anfodlon â chanlyniad proses gwynion yr ysgol, gallant ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes a Hamdden. Bydd y Cyfarwyddwr yn penodi swyddog priodol i gynnal adolygiad o'r gweithdrefnau a ddilynwyd er mwyn cadarnhau bod y gŵyn wedi cael ei hystyried yn deg a llawn.
- Nid oes gan yr A.A.Ll. rôl statudol i ymchwilio nac i ddatrys cwynion yn erbyn ysgolion. Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethol yn unig yw hynny. Mae newidiadau deddfwriaethol wedi gwneud ysgolion yn llawer mwy annibynnol ar yr A.A.Ll. Os yw ysgolion yn gofyn am hynny, mae swyddogion o'r Gwasaneth Ysgolion ar gael i gynnig gwybodaeth a chyngor.
- Os oes unrhyw un yn cysylltu â'r A.A.Ll. i gwyno am ysgol, yna fe'u cyfeirir yn ôl at yr ysgol ar eu hunion.
- Os nad yw achwynwr yn fodlon gyda phrosesau'r ysgol, nid oes ganddynt hawl i apelio i'r A.A.Ll.

### **Rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru.**

- Os yw achwynwr yn parhau i fod yn anfodlon gydag ymateb y Corff Llywodraethol, mae ganddo ef/hi yr hawl i gyfeirio'r achos i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar sail bod y Corff wedi , neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol. Gall hyn arwain at gyfarwyddyd yn erbyn y Corff Llywodraethol.
- Nid yw cyfarwyddyd fel arfer yn gwyrddroi penderfyniad y Corff Llywodraethol, ond gallai olygu bod y Corff yn ail ystyried yr achos neu'n ei ystyried am y tro cyntaf, os yw wedi methu, neu i newid ei weithdrefnau i wneud yn siwr nad yw'n digwydd eto.
- Mae'r llysoedd wedi dadanasoddi afresymol fel gweithred na fyddai unrhyw awdurdod rhesymol wedi ei fabwysiadu heb roi ystyriaeth llawn i'w gyfrifoldebau.

### **Rôl yr Ombwdsmon.**

- Nid yw Cyrff Llywodraethol ysgolion yn disgyn o fewn cyfrifoldebau Ombwdsmon Llywodraeth leol. Felly, os nad yw achwynwr yn fodlon gydag ymateb y Corff Llywodraethol, nid yw'n briodol i gyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon.

### **Rôl Comisiynydd Plant Cymru.**

- Fe all y Comisiynydd adolygu'r trefniadau a wnaed wrth ddelio â chŵyn i wneud yn siwr eu bod yn gweithredu'n effeithiol er lles gorau'r plant.

- Mae gan y Comisiynydd hawl i gael gwybodaeth, esboniadau a chymorth ynglyn â'r hyn a wnaed i ymateb i gŵyn unigol.
- Nid yw'r Comisiynydd, serch hynny, yn tanseilio'r gweithdrefnau codi cŵyn sydd eisoes mewn lle nac ychwaith yn gweithredu fel llwybr i apelio.

Mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb yn ein hysgol gael gweld copi o'r ddogfen hon ar ôl gwneud trefniadau ymlaen llaw gyda'r ysgol i'r perwyl hwnnw.

Caiff y ddogfen hon ei hadolygu os y bydd unrhyw ddiwygiadau yn digwydd yn y gofynion statudol ar gyfer ysgolion Cymru.

Trafodwyd a derbyniwyd cynnwys y ddogfen hon gan y Corff Llywodraethol.

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_